# Cwestiynau Cyffredin Gŵyl Parciau Abertawe

## Archebu gyda hyder - Gwarant talu arian yn ôl 100%

Gall pob cwsmer brynu tocynnau'n hyderus gan wybod ein bod yn cynnig gwarant talu arian yn ôl 100% pe bai **rheoliadau COVID-19 yn golygu na ellir cynnal y digwyddiadau.** (Nid yw hyn yn berthnasol i'r ffïoedd archebu a phostio)

## Beth gaiff ei wneud i sicrhau bod y digwyddiad hwn yn ddiogel?

Byddwn yn ymdrechu i ddarparu'r amgylchedd mwyaf diogel posib fel y gallwch fwynhau'ch ymweliad.

Byddwn yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw gyfyngiadau llywodraeth sydd ar waith ar adeg y digwyddiad.

Ar ôl i'ch tocynnau gael eu sganio, cewch eich cyfeirio i'ch lle yn yr ardal wylio gan sicrhau bod pob grŵp yn eistedd yn unol â gofynion cadw pellter cymdeithasol.

Bydd mesurau ychwanegol hefyd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer profiad digwyddiad diogel. Bydd y rhain yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ein staff yn gwisgo PPE, toiledau wedi'u glanhau'n rheolaidd, gorsafoedd diheintio dwylo a phwyntiau ciwio wedi'u marcio'n glir.

## Alla i ddod â fy mwyd a diod fy hun?

Caniateir i ymwelwyr ddod â blanced bicnic a lluniaeth ysgafn i'r digwyddiad. Fodd bynnag, ni chaniateir i ymwelwyr ddod â diodydd alcoholig na barbeciwiau i'r digwyddiad.

Bydd unedau arlwyo a bar cyhoeddus hefyd ar gael yn y digwyddiad.

## Oes angen tocyn papur arna i?

Cyflwynir ein holl docynnau yn electronig, felly ni anfonir tocyn papur atoch.

Gallwch argraffu eich e-docynnau os hoffech chi, ond rydym yn cynghori arbed y papur a llwytho'r tocynnau ar eich ffôn neu dabled i'w sganio wrth y fynedfa.

## Ydw i'n gallu prynu tocyn teulu?

Mae tocynnau teulu ar gael ac yn caniatáu dau oedolyn a hyd at dri o blant.

Mae tocynnau teulu ar gael ymlaen llaw yn unig.

## Ydw i'n gallu prynu tocyn wrth y drws?
Ydych, ond rydym yn annog ymwelwyr i brynu tocynnau ymlaen llaw, er mwyn gwarantu mynediad i'r digwyddiad a hefyd i osgoi ciwio ar y diwrnod.

Bydd angen i gwsmeriaid sy'n prynu tocynnau ar y diwrnod ddarparu gwybodaeth ychwanegol at ddibenion profi ac olrhain.

## Beth sy'n digwydd os yw hi'n bwrw glaw?
Gwiriwch y rhagolwg ar ddiwrnod y cynhyrchiad a pharatowch ar gyfer yr amodau.

Bydd y cynhyrchiad yn parhau i gael ei gynnal yn y glaw, fodd bynnag, mewn tywydd garw eithafol, gellir canslo'r digwyddiad.

Gwneir pob ymdrech i aildrefnu'r digwyddiad mewn lleoliad arall. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni roddir ad-daliadau ar gyfer y dyddiad gwreiddiol.

Os nad oes modd aildrefnu'r digwyddiad, bydd tocynnau'n cael eu had-dalu o'r ffynhonnell brynu yn ôl eu hwynebwerth. Ni roddir ad-daliadau mewn perthynas â ffïoedd archebu na chostau postio.

Pe bai'r digwyddiad yn cael ei ganslo ar ôl i'r digwyddiad ddechrau, ni roddir ad-daliadau.

## Ydy plant yn cael bod yn bresennol?
Gall gwesteion o unrhyw oedran fod yn bresennol ond rhaid i blant dan 12 oed fod yng nghwmni oedolyn dros 18 oed. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un dan 16 oed sydd heb gwmni oedolyn.

## Oes rhaid i blant ifanc gael tocyn?
Mae plant dan 3 oed yn cael mynediad am ddim ac nid oes angen tocyn arnynt.

## Beth yw'r ddarpariaeth ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn?
Mae'r safle'n hygyrch, fodd bynnag, mae prif safle'r digwyddiad ar laswellt.

Felly, bydd elfen o deithio 'oddi ar y llwybr' yn angenrheidiol i gyrraedd y brif ardal wylio.

## Pryd gallaf gyrraedd?
Mae'r gatiau'n agor awr cyn i'r cynhyrchiad ddechrau.

## Faint o'r gloch bydd y cynhyrchiad yn dechrau?
4.30pm – Ffilm i blant (gatiau'n agor am 3.30pm)
8.00pm – Ffilm i'r teulu (gatiau'n agor am 7.00pm)

3.00pm – Diwrnod Hwyl i'r Teulu (gatiau'n agor am 3.00pm)

## A fydd seddi'n cael eu darparu?

Mae croeso i chi ddod â'ch blancedi neu gadeiriau gwersylla eich hun. Bydd nifer cyfyngedig o gadeiriau cynfas ar gyfer gweithgareddau allweddol.

## Alla i ddod â'm ci

Dim ond cŵn gwasanaeth a ganiateir yn y cynyrchiadau. Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra.

## Oes parcio ar gael ar y safle?

Does dim maes parcio swyddogol ar gyfer y digwyddiad hwn.

## Alla i smygu?

Ni chaniateir smygu yn ardal eistedd y cynhyrchiad er cysur ein gwesteion. Mae hyn yn cynnwys e-sigarennau a fêps.

## A fydd cyfleusterau toiled ar gael?

Bydd, mae gan bob un o'n digwyddiadau gyfleusterau toiled, gan gynnwys cyfleusterau hygyrch.

## Ydy'r holl weithgareddau am ddim?

Gall ffïoedd bach fod yn berthnasol ar gyfer rhai gweithgareddau

## Oes gweithgareddau sy'n addas ar gyfer plant bach?

Mae'r digwyddiad yn addas i'r teulu cyfan, gydag amrywiaeth o weithgareddau'n cael eu cynnal trwy gydol y dydd.